


Gwybodaeth ar gyfer Cleifion

Deep Anterior Lamellar Keratoplasty (DALK)

Uned Llygaid



Beth yw DALK?

"Trawsblaniad o rai o haenau'r gornbilen" yw DALK (Deep Anterior Lamellar Keratoplasty). Yn y llawdriniaeth hon, caiff haenau blaen eich cornbilen (gan gynnwys yr haenau sydd wedi'u difrodi) eu tynnu a'u cyfnewid am feinwe iach gan roddwr – ond caiff yr **haen fewnol (endotheliwm)** ei gadael heb ei chyffwrdd. Mae hyn yn helpu i gadw mwy o feinwe naturiol eich llygad ac yn lleihau'r risg y bydd y meinwe newydd yn cael ei wrthod.

Pam y gallai DALK gael ei argymhell i chi:

Defnyddir DALK yn aml ar gyfer cleifion sydd â:

1. Keratoconus
2. Creithiau ar y gornbilen (nad ydynt yn effeithio ar yr endotheliwm).
3. Dystroffïau stromal y gornbilen
4. Trawma i'r llygad sy'n effeithio ar yr haenau blaen

Sut mae'r driniaeth yn cael ei gwneud?

- Cynhelir y llawdriniaeth o dan anesthetig cyffredinol.
- Bydd rhan flaen y gornbilen yn unig, y rhan sydd wedi'i difrodi, yn cael ei thynnu.
- Paratoi cornbilen y rhoddwr a'i gwnïo yn ei lle.
- Bydd haen fewnol eich cornbilen yn cael ei chadw.
- Mae'r llawdriniaeth fel arfer yn cymryd 60-90 munud a gellir ei gwneud fel triniaeth ddydd.

Manteision DALK:

- ✓ Llai o risg y bydd y meinwe a grafftiwyd yn cael ei wrthod (gan nad yw'r endotheliwm – haen fewnol y gornbilen – yn cael ei newid).
- ✓ Cadw haen fewnol naturiol eich cornbilen.
- ✓ Mae cyfradd goroesi'r meinwe a gyflwynir yn uwch yn y tymor hir o'i gymharu â thrawsblannu'r haenau i gyd.
- ✓ Llai o risg o ddatblygu glawcoma.
- ✓ Adferiad cyflym.

Risgiau a chymhlethdodau posibl:

1. Gwrthod y meinwe newydd (yn brin ond yn bosibl).
2. Haint.
3. Astigmatedd neu olwg aneglur.
4. Niwlo'r rhyngwyneb (ychydig o niwlo rhwng yr haenau).
5. Mewn rhai achosion, os na ellir cwblhau DALK, gall y llawfeddyg newid y driniaeth i drawsblannu'r haenau cyfan (PKP).

Beth i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth:

- Bydd eich golwg yn aneglur i ddechrau, ac yna'n gwella'n raddol dros gyfnod o fisoedd.
- Bydd angen i chi ddefnyddio diferion llygaid yn rheolaidd.
- Bydd pwythau yn cael eu gadael yn eu lle am nifer o fisoedd a'u tynnu'n raddol.
- Mae apwyntiadau dilynol rheolaidd yn bwysig iawn er mwyn monitro'r broses gwella a chanfod unrhyw broblemau'n gynnar.

Gofal ar ôl llawdriniaeth:

1. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r diferion llygaid.
2. Ceisiwch beidio â rhwbio eich llygad.
3. Gwisgwch orchudd amddiffynnol tra'n cysgu am yr wythnosau cyntaf.
4. Ceisiwch osgoi nofio, amgylcheddau lle mae llwch a chodi gwrthrychau trwm.
5. Dewch i'ch apwyntiadau dilynol
6. Cysylltwch ar unwaith os byddwch yn sylwi ar: unrhyw boen, cochni, newid sydyn yn eich golwg, neu sensitifrwydd i olau.

Amserlen Adfer:

Amser	Beth i'w Ddisgwyl
Diwrnodau 1-3	Y golwg yn aneglur, swigen yn y llygad, gorffwys gartref
1-2 wythnos	Gallwch ailddechrau gwneud gweithgaredd ysgafn
1-3 mis	Y golwg yn gwella'n raddol
6-12 mis	Gellir dechrau tynnu'r pwythau.
Ar ôl gwella	Efallai y bydd angen sbectol neu lensys cyffwrdd er mwyn gweld yn iawn.

Cysylltwch â ni:

Rhif ffôn EEC: 01633 – 238856 yn ystod dyddiau/oriau gwaith

Penwythnos/Tu allan i Oriau Gwaith: Tîm Offthalmoleg ar Ddyletswydd, drwy rif y switsfwrdd: **01633- 234234**

E-bost (dim ond os oes angen cyngor):
EmergencyEyeClinic.abb@wales.nhs.uk

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**